CYNLLUN TRWSIO GOLLYNGIADAU AM BRIS GOSTYNGOL

PARTNERIAETH I RWYSTRO GOLLWNG DŴR

Mae hyd at 20% o'r holl ddŵr sy'n gollwng yn ardal cyflenwi Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn cael ei golli drwy bibwaith y mae'r cwsmer yn gyfrifol amdano. Y chi'r cwsmer sy'n gyfrifol am drwsio unrhyw ollyngiadau sy'n digwydd ar eich rhan chi o'r bibell gwasanaeth (yr ydych chi'n berchennog arni) – hynny yw, y darn sy'n rhedeg rhwng y terfyn â'r stryd lle gosodwyd ein prif bibell ni â'ch eiddo chi.

Mae'n hanfodol bwysig fod gollwng dŵr yn cael ei leihau i lefelau derbyniol er mwyn gwarchod yr amgylchedd a lleihau costau ynni.

Os derbyniwch lythyr gennym ni'n eich hysbysu fod dŵr yn gollwng, gallwn gynnig y canlynol i'n cwsmeriaid domestig (yn ddarostyngedig i amodau):

- **Gwasanaeth darganfod gollyngiad a'i leoliad am ddim**
- **Trwsio gollyngiad ym mhibell gyflenwi cwsmer am bris gostyngol, lle bo'r bibell hyd at 32mm o ddiamedr**

MAE'R GWAITH YN DDAROSTYNGEDIG I'R AMODAU CANLYNOL:

1. Rhaid i chi gysylltu â ni o fewn 7 diwrnod ar ôl derbyn y llythyr cyntaf (LL3).
2. Rhaid bod yr eiddo'n cael ei ddefnyddio'n unig at ddibenion domestig (ni chynhwysir tai cyngor, a thai sy'n eiddo i gymdeithasau tai a landlordiaid preifat), rhaid i'r eiddo fod dros 12 mis oed, a heb fod yn rhan o unrhyw ailddatblygu masnachol, a rhaid i'r gollyngiad fod yn un nad yw'n cael ei gwmpasu gan unrhyw bolisi yswiriant sydd wedi'i dargedu'n benodol at bibellau tanddaearol sy'n gollwng.
3. Dim ond y ddau ollyngiad cyntaf yn ystod oes yr eiddo fydd yn gymwys. Ni fyddwn ond yn trwsio un gollyngiad am bris gostyngol ym mhob blwyddyn galendr.
4. Os ydych yn meddwl fod dŵr yn gollwng o'ch pibwaith allanol byddwn yn eich cynorthwyo i chwilio am y lleoliad. Cynigiwn wasanaeth darganfod gollyngiad sydd **am ddim** ar gyfer y ddwy awr waith gyntaf.
5. Byddwn yn cyflawni'r gwaith trwsio ac yn talu'r **£220** cyntaf o gost y trwsio (yn cynnwys unrhyw waith cysylltiedig). Os yw'r gost yn debygol o fod yn uwch na **£220** byddwn yn dweud wrthych cyn cychwyn ar y gwaith yn union faint y bydd angen i chi ei dalu tuag at drwsio'r gollyngiad. Ar y pwynt hwnnw, byddwn yn gofyn i chi a ydych am i ni barhau â'r gwaith, neu gallwch ddefnyddio contractwr preifat. Pan fyddwn ni'n gwneud y gwaith trwsio, bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw gostau'r tu hwnt i **£220**.
6. Ni fyddwn yn cynnig y gwasanaeth hwn pan fo'r gollyngiad o dan strwythur parhaol, neu yn agos iawn ato, na phan na fedrwn yn rhwydd ddarganfod lle mae'r gollyngiad, er enghraifft, pan fo ar ddarn hir o bibell.
7. Rhaid i ni allu dilyn llwybr y bibell gwasanaeth gan ddefnyddio'r offer sydd ar gael i ni.
8. Rhaid i ni allu cyrraedd y tap cau mewnol yn ddidrafferth er mwyn i ni gael defnyddio'n hoffer darganfod gollyngiadau.
9. Rhaid i ni allu cyrraedd y bibell yn ddidrafferth a rhaid iddi fod yn llai nag 1.5m o ddyfnder; rhaid i chi symud ac ailosod unrhyw strwythurau dros dro megis siediau, coed, llwyni, addurniadau, planhigion mewn potiau ac ati.
10. Byddwn yn ail-lenwi'r twll gyda'r deunydd a ddaeth ohono, ond eich cyfrifoldeb chi fydd yr ailosod terfynol. Fe orchuddir unrhyw wynebau caled gyda tharmacadam dros dro.
11. Os barnwn fod eich pibell gwasanaeth mewn cyflwr gwael neu'n aneconomaidd i'w thrwsio, eich cyfrifoldeb chi fydd cyflogi contractwr i drwsio neu ailosod y gwasanaeth.
12. Mae'n bosibl y gallwn ailosod hyd at 5 metr o bibell am ddim gan ddefnyddio techneg dwnelu, os yw'r tir wedi'i gloddio'n barod fel ag i'n galluogi i dwnelu.
13. Os yw unrhyw ran o'r pibwaith oddi mewn i eiddo rhywun arall neu os na ellir canfod yn eglur lle mae'r terfyn, ni fydd y Cwmni'n cyflawni'r trwsio am bris gostyngol.
14. Cadwn yr hawl i beidio â chyflawni trwsio am bris gostyngol os yw'n aneconomaidd i wneud hynny, oherwydd safle'r gollyngiad neu gyflwr y bibell.

Os nad ydych am ddefnyddio'n gwasanaeth trwsio am bris gostyngol neu os nad yw'r gollyngiad yn dod o fewn cwmpas y cynllun, fe ddisgwylir i chi drwsio'r gollyngiad yn unol â chyfarwyddyd y Llythyr Gwastraff (LL3) yn llwyr ar eich cost eich hun.

Nodwch os gwelwch dda: Oni ddyfernir i ni fod yn esgeulus, ni fyddwn yn atebol ar gyfer unrhyw hawliadau ar gyfer niwed i bersonau neu ddifrod i eiddo (gan gynnwys ffitiadau'r cwsmer) sy'n codi o ganlyniad i'n gwaith.

Ni roddir gwarant ar gyfer unrhyw waith trwsio os byddwn yn barnu fod y pibwaith mewn cyflwr gwael.